# Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

**2011 mccc 2**

## 1 Dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn

(1) Oddi ar ddechrau Mai 2014, rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau, roi sylw dyledus i ofynion—

- (a) Rhan I o'r Confensiwn,
- (b) erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog, ac eithrio erthygl 6(2), ac
- (c) erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

(2) Oddi ar ddechrau Mai 2012 hyd at ddiwedd Ebrill 2014, rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud unrhyw benderfyniad sydd yn dod o fewn is-adran (3), roi sylw dyledus i ofynion Rhan I o'r Confensiwn a'r Protocolau.

(3) Mae penderfyniad yn dod o dan yr is-adran hon os yw'r penderfyniad yn ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

- (a) darpariaeth y bwriedir ei chynnwys mewn deddfiad;
- (b) fformiwleiddio polisi newydd;
- (c) adolygiad o bolisi sydd eisoes mewn bod neu newid i bolisi sydd eisoes mewn bod.

(4) Mae cyfeiriadau yn y Mesur hwn at ddyletswydd Gweinidogion Cymru o dan yr adran hon yn cyfeirio—

- (a) oddi ar ddechrau Mai 2012 hyd at ddiwedd Ebrill 2014, at y ddyletswydd yn is adran (2); a
- (b) oddi ar ddechrau Mai 2014, at y ddyletswydd yn is-adran (1).

(5) Mae'r adran hon yn gymwys i'r Prif Weinidog ac i Weinidogion Cymru fel ei gilydd (ac mae unrhyw gyfeiriad yn y Mesur hwn at y ddyletswydd o dan yr adran hon i'w ddarllen yn unol â hynny).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Adran 1.